*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1385

# Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

## RHAN 1

Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 a deuant i rym ar 1 Awst 2009.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "corff gwasanaeth iechyd" ("*health service body*") yw—

(a) Awdurdod Iechyd Strategol, Awdurdod Iechyd Arbennig, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, ymddiriedolaeth GIG, ymddiriedolaeth sefydledig GIG, Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus (GIC) fel y'i diffinnir yn adran 139(6) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**1**) ac adran 97(6) o'r Ddeddf, neu gontractwr sy'n cael ei drin fel corff gwasanaeth iechyd yn unol â rheoliad 10 o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol Lleol etc) 2006(**2**);

(b) Bwrdd Iechyd, Bwrdd Iechyd Arbennig neu'r Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin ar gyfer Gwasanaeth Iechyd yr Alban, a gyfansoddwyd yn y drefn hon o dan adrannau 2, 10 a 12A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(**3**);

(c) Bwrdd Ymarfer Deintyddol yr Alban a gyfansoddwyd gan Reoliadau sy'n cael effaith o dan adran 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978

(ch) Rheoleiddiwr Annibynnol Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG;

mae "cyfarwyddwr" ("*director*") mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys ei chadeirydd;

mae i "cyfarwyddwr gweithredol" yr ystyr a roddir i "executive director" ac i "cyfarwyddwr anweithredol" yr ystyr a roddir i "non-executive director" ym mharagraff 3(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

mae i "dyddiad gweithredol" yr ystyr a roddir i "operational date" ym mharagraff 5(5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 1 Awst 2009;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "penodai" ("*appointee*") yw cadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu gyfarwyddwr anweithredol iddi;

(**1**) 2006 p. 41.
(**2**) O.S. 2006/552.
(**3**) 1978 p.29.

ystyr "y pwyllgor perthnasol" ("*the relevant committee*") yw pwyllgor ymddiriedolaeth GIG a benodwyd o dan naill ai rheoliad 21 neu reoliad 22 pa un bynnag yw'r un priodol;

ystyr "Rheoleiddiwr Annibynnol Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG" ("*Independent Regulator of NHS Foundation Trusts*") yw'r corff corfforaethol y mae adran 31(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn parhau ei fodolaeth;

ystyr "Rheoliadau 1990 ("*the 1990 Regulations*") yw Rheoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990(**4**);

mae i "undeb llafur" yr ystyr a roddir i "trade union" yn adran 1 o Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Cyflogaeth (Cydgrynhoi) 1992(**5**);

ystyr "yr Ymddiriedolaeth" ("*the Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(**6**).

(3) Yn rheoliad 24—

mae "corff cyhoeddus" ("*public body*") yn cynnwys—

(a) unrhyw gorff a sefydlwyd at ddibenion ymgymryd, o dan berchenogaeth genedlaethol, ag unrhyw ddiwydiant neu ran o unrhyw ddiwydiant neu ymgymeriad; a

(b) corff llywodraethu unrhyw brifysgol, coleg prifysgol neu goleg, ysgol neu neuadd prifysgol;

ystyr "cyfranddaliadau" ("*shares*") yw cyfranddaliadau yng nghyfalaf cyfranddaliadau cwmni neu gorff arall neu yn stoc cwmni neu gorff arall;

ystyr "gwarannau" ("*securities*") yw—

(a) cyfranddaliadau neu ddyledebau, p'un ai arwystl ar asedau'r cwmni neu gorff arall ydynt ai peidio, neu hawliau neu fuddiannau mewn unrhyw gyfranddaliadau neu mewn unrhyw ddyledebau o'r fath, neu

(b) hawliau (boed gwir neu amodol) mewn cysylltiad ag arian a roddwyd ar fenthyg i neu a adneuwyd mewn unrhyw gymdeithas ddiwydiannol a darbodus neu gymdeithas adeiladu.

(4) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn, ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y rheoliad hwnnw.

(**4**) O.S. 1990/2024.
(**5**) 1992 p. 52.
(**6**) O.S. 2009/2058 (Cy.177).